

# Gwasanaethau Radioleg: Diweddariad ar gynnydd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2755A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys

|   |   |
|---|---|
| Adroddiad cryno   |   |
| Cyflwyniad  | 4 |
| Ein canfyddiadau  | 5 |
| Argymhellion  | 7 |
| Atodiadau   |   |
| Atodiad 1 – Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gennym yn 2017 | 9 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

- 1 Yn 2017 fe wnaethom adolygu'r gwasanaethau radioleg fel yr oeddent wedi'u sefydlu o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM) gynt. Roedd dau wasanaeth radioleg ar yr adeg honno:
  - Gorllewin BIPABM – a oedd yn cynnwys Ysbytai Treforys a Singleton yn Abertawe; a
  - Dwyrain BIPABM – a oedd yn cynnwys Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- 2 Daeth ein hadroddiad, [Gwasanaeth Radioleg – Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg](#), i'r casgliad bod cynllunio strategol gwan ar draws y gwasanaethau, ar y cyd â galw cynyddol, heriau sylweddol o ran y gweithlu, a chyfarpar a oedd yn mynd yn hen, yn arwain at ôl-groniadau o ran llunio adroddiadau a risgiau eraill i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.
- 3 Fe wnaeth adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2018 [Gwasanaethau Radioleg yng Nghymru](#) hefyd amlygu nifer o faterion a oedd yn bygwth cynaliadwyedd gwasanaethau radioleg ledled Cymru. Mae'r materion hyn yn cynnwys heriau o ran staffio; cyfarpar sy'n mynd yn hen ac nas defnyddir ddigon; gwendidau mewn systemau TG; arosiadau hir am ganlyniadau archwiliadau; a chyfleoedd i wella trefniadau craffu a chynllunio strategol.
- 4 Roedd y ddau adroddiad yma'n nodi argymhellion i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM) ar gyfer gwella trefniadau cynllunio strategol, cynllunio gweithredol, cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu, gwella rhaglenni amnewid cyfarpar a gwella trefniadau modelu'r galw, cynyddu capasiti i'r eithaf, gwybodaeth am berfformiad a monitro. Roedd yr adroddiad cenedlaethol yn 2018 hefyd yn nodi heriau ychwanegol a oedd yn galw am ddull cydgysylltiedig gan GIG Cymru.
- 5 Yn 2019, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Ddatganiad o Fwriad o ran Delweddu](#) a oedd yn nodi ymrwymiad i fabwysiadu dull strategol cydgysylltiedig newydd o ddatblygu gwasanaethau delweddu sydd o ansawdd da, yn effeithiol ac yn gynaliadwy. Sefydlwyd Bwrdd Strategaeth y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol yn 2019 i oruchwyllo'r broses o roi'r Datganiad o Fwriad o ran Delweddu ar waith a hybu arloesi a ffyrdd newydd o weithio mewn gwasanaethau delweddu yng Nghymru. Mae Bwrdd Strategaeth y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol wedi bod yn gwneud gwaith i asesu'r cynnydd a wneir gan GIG Cymru.
- 6 Ar 1 Ebrill 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru newidiadau i ffiniau BIPABM a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Daeth safleoedd BIPABM yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, Ysbyty Singleton ac Ysbyty Treforys yn rhan o Fwrdd Iechyd newydd, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Daeth Ysbyty Tywysoges Cymru, a arferai fod yn rhan o BIPABM, yn rhan o Fwrdd Iechyd newydd, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

- 7 Daethpwyd â gwasanaethau radioleg ar safleoedd y tri phrif ysbyty ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd) ynghyd i ffurfio'r Gyfarwyddiaeth Radioleg fel rhan o'r Isadrn Gwasanaethau Cymorth Clinigol. Ers y newidiadau i'r ffiniau yn 2019, mae pandemig COVID-19 wedi newid y dirwedd y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ynddi, gan greu heriau a chyfleoedd newydd ar gyfer darparu gwasanaethau.
- 8 Fe gynhaliom ni asesiad lefel-uchel o'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'n hargymhellion. Wrth wneud y gwaith hwn fe wnaethom y canlynol:
- gofyn i'r Bwrdd Iechyd gwblhau hunanasesiad o gynnydd;
  - adolygu tystiolaeth ddogfennol i ategu'r hunanasesiad, yn ogystal â phapurau'r bwrdd a phwyllgorau; a
  - chynnal cyfweiliadau gyda nifer o swyddogion i drafod cynnydd, materion cyfredol, a heriau yn y dyfodol.
- 9 Ceir crynodeb o'n canfyddiadau yn yr adran ganlynol gyda gwybodaeth fanylach yn cael ei darparu yn **Atodiad 1**.

## Ein canfyddiadau

- 10 Ein casgliad ar y cyfan yw bod y **Bwrdd Iechyd wedi gwella'r ffordd y mae'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau radioleg. Mae sefydlu un Gyfarwyddiaeth Radioleg ym mis Ebrill 2019 wedi galluogi'r gwasanaeth i ymateb yn gyson i'r heriau y mae'n eu hwynebu. Mae cynllunio mewn modd systematig ar gyfer y galw a chapasiti wedi darparu sylfaen glir i gyfleu'r achos dros gynyddu oriau'r gwasanaeth a'r gofynion cysylltiedig o ran gweithlu ychwanegol. Mae arweinyddiaeth weithredol gref wedi codi proffil y Gyfarwyddiaeth Radioleg, gan sicrhau ei bod yn rhan annatod o gynllunio sefydliadol. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n trafod gwasanaethau radioleg rhyw lawer.**
- 11 I grynhoi, caiff statws y cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion blaenorol ei nodi yn **Arddangosyn 1**.

### Arddangosyn 1: statws argymhellion 2017

| Cyfanswm yr argymhellion | Wedi'u rhoi ar waith | Gweithredu'n mynd rhagddo | Dim gweithredu | Wedi'u disodli |
|--------------------------|----------------------|---------------------------|----------------|----------------|
| 10                       | 6                    | 4                         | 0              | 0              |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 12 Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion am y rhesymau canlynol:
- fe wnaeth sefydlu un Gyfarwyddiaeth Radioleg yn dilyn y newid i'r ffiniau ar 1 Ebrill 2019 helpu i fynd i'r afael â nifer o'r materion a amlygwyd yn ein hadroddiad blaenorol;
  - mae adolygu trefniadau adolygu gan gymheiriaid wedi arwain at ddull cyson a systematig ar draws dulliau ac arbenigaethau radioleg;
  - mae'r Gyfarwyddiaeth Radioleg wedi cynyddu ei phroffil mewn cyfarfodydd cynllunio gweithredol, gan ei galluogi i adnabod datblygiadau sydd â'r potensial i effeithio ar y gwasanaeth ac ymateb iddynt;
  - mae cyfraddau peidio â chadw apwyntiadau cleifion radioleg allanol bellach yn cael eu cofnodi i'w defnyddio o fewn y Gyfarwyddiaeth Radioleg ac yn cael eu rhannu'n ehangach ar draws y Bwrdd Iechyd trwy'r Bwrdd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio;
  - mae gan bob un o'r prif safleoedd ysbyty fynediad at yr un fersiwn o RadIS<sup>1</sup> a'i modiwl archebu apwyntiadau, er bod gwaith i resymoli trefniadau archebu apwyntiadau ar gyfer cleifion radioleg allanol yn dal ar gam cynnar;
  - mae gweithdrefnau i amnewid cyfarpar sy'n achosi risg i ofal cleifion neu barhad busnes yn gyson ac mae cynlluniau wrth gefn yn eu lle trwy Weithdrefnau Gweithredu Safonol a'r Polisi Parhad Busnes;
  - mae gwaith i fodelu'r galw a chapasiti wedi cael ei wneud i bennu'r potensial i gynyddu oriau gweithredu sganwyr ac mae'n gysylltiedig â chynlluniau'r gweithlu i sicrhau argaeledd staff i gefnogi codiadau mewn gweithgarwch;
  - mae'r Gyfarwyddiaeth Radioleg yn cyfrannu at ddatblygu Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd; ac
  - nid oes gan y Gyfarwyddiaeth Radioleg un cynllun ariannol ond cafodd llinell sylfaen y gyllideb ar gyfer 2021-22 ei phennu ar sail y gweithgarwch ar gyfer 2019-20 ac mae wedi cael ei chymeradwyo gan fod yn ddibynnol ar weithgarwch.
- 13 Wrth gynnal y diweddariad asesu cynnydd hwn, canfuom un risg newydd mewn perthynas â gwasanaethau radioleg a nodir yn **Arddangosyn 2**. Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn ymwybodol o'r risg hon.

<sup>1</sup> RadIS yw'r System Gwybodaeth Radioleg a ddefnyddir gan bob bwrdd iechyd. Mae ymarferwyr radioleg yn defnyddio RadIS i reoli'r gwasanaeth ac i gadw golwg ar y sganiau y mae cleifion wedi'u cael.

## Arddangosyn 2: risg newydd a ganfuwyd yn ystod ein gwaith

| Risgiau newydd   |  |
|--|--|
| Maes   | Disgrifiad   |
| Galw uwch o ganlyniad i'r galw a ataliwyd gan COVID-19 | Ceir lefel anhysbys o alw 'wedi pentyrru' am bod oedi wedi bod gyda thriniaeth cleifion neu am eu bod heb ymweld â'u meddyg teulu yn ystod y pandemig, a allai effeithio'n sylweddol ar allu'r gwasanaeth radioleg i ymateb i atgyfeiriadau a llunio adroddiadau ar ddelweddau mewn modd amserol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y risg hon sydd wedi cael ei hychwanegu at gofrestr risgiau'r gyfarwyddiaeth. Mae'r risg yn cael ei hadolygu'n rheolaidd; ac mae'n cael ei monitro a'i rheoli fel rhan o broses rheoli risgiau'r Isadrn Gwasanaethau Cymorth Clinigol a'r Bwrdd Iechyd. . |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Argymhellion

- 14 Wrth wneud y gwaith hwn, nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto, gweler **Arddangosyn 3**. Rydym wedi diwygio geiriad yr argymhellion blaenorol i adlewyrchu'r un Gyfarwyddiaeth Radioleg sydd wedi bod yn ei lle ers 2019.

### Arddangosyn 3: argymhellion blaenorol nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto

#### Argymhellion 2017 nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto

- A4 Dylai'r Gyfarwyddiaeth Radioleg adolygu a rhoi sylw i gydgyssylltu apwyntiadau radioleg mewn arbenigaethau ac ar draws safleoedd, er mwyn helpu i ddsbarthu'r galw yn effeithiol a lleihau gwahaniaethau mewn amseroedd aros.
- A7 Dylai'r Gyfarwyddiaeth Radioleg sefydlu cynllun strategol radioleg er mwyn:

## Argymhellion 2017 nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto

- dangos y sefyllfa bresennol o ran galw, capasiti a'r adnoddau sydd ar gael;
- amlinellu barn am y sefyllfa y mae angen i'r gwasanaeth ei chyrraedd;
- pennu sut y bydd yn cyrraedd ei nodau; a
- chyfrannu at ddatblygu cynlluniau gweithredol blynyddol.

A8 Dylai'r Gyfarwyddiaeth Radioleg bennu cynlluniau ariannol clir a fydd yn cyfrannu i'w chynlluniau gweithredol blynyddol..

A10 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau cynrychiolaeth glir i wasanaethau radioleg ar ei brif bwyllgorau a grwpiau, erbyn canol 2017.



# Atodiad 1

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gennym yn 2017

### Arddangosyn 4: asesiad o'r cynnydd

| Argymhellion gwreiddiol i fynd i'r afael â hwy  | Statws <sup>2</sup> | Crynodeb o'r cynnydd  |
|---|---------------------|---|
| A1 Dylai'r ddau wasanaeth radioleg sefydlu cynllun gweithredu ar y cyd, erbyn canol 2017, y gall fod angen i rannau ohono gael eu cyflawni fel y bydd adnoddau ar gael, er mwyn sicrhau bod ansawdd adroddiadau'n cael ei adolygu gan gymheiriaid yn unol â'r gofynion mewn safonau proffesiynol. | Gwyrdd              | <p>Yn 2017, canfuom mai dim ond yn achlysurol yr oedd yr adolygiadau gan gymheiriaid o ansawdd adroddiadau delweddu'n cael eu cynnal ac nad oedd cynllun clir i fynd i'r afael â'r sefyllfa.</p> <p>Mae cyfran y delweddau sy'n mynd i gael eu hadolygu gan gymheiriaid yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol. Ar gyfer radiolegwyr ymgynghorol, caiff hyn ei bennu gan lefel gweithgarwch y tîm amlddisgyblaethol. Mae cyfran y delweddau a gaiff eu hadolygu gan gymheiriaid yr un fath ar gyfer pob dull ac arbenigaeth ar draws y Bwrdd lechyd. Caiff unrhyw ddiffygion mewn adolygiadau gan gymheiriaid eu trafod mewn cyfarfodydd addysg radioleg misol.</p> <p>Dywedodd y Bwrdd lechyd wrthym fod oddeutu 300 o sganiau yr wythnos yn cael eu hadolygu gan radiolegwyr yng nghyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol y Gyfarwyddiaeth Radioleg. Caiff anghysonderau mewn adroddiadau eu bwydo'n ôl i</p> |

<sup>2</sup> Mae Gwyrdd yn dynodi bod yr argymhelliad wedi cael ei roi ar waith; mae Ambr yn dynodi bod gweithredu'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r argymhelliad; mae Coch yn dynodi na chymerwyd camau gweithredu digonol neu na weithredwyd o gwbl; ac mae Glas yn dynodi bod yr argymhelliad wedi cael ei ddisodli.

| Argymhellion gwreiddiol i fynd i'r afael â hwy | Statws <sup>2</sup> | Crynodeb o'r cynnydd  |
|--|---------------------|---|
|  |                     | <p>radiolegwyr unigol sy'n llunio adroddiadau a gallant gael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd addysg radioleg misol.</p> <p>Neilltuir un bore bob mis ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid o ddelweddau ac adroddiadau uwchsain, sy'n cyfateb i oddeutu 1% o sganiau sonograffwyr. Ar adeg ein hadolygiad, roedd adolygiadau gan gymheiriaid wedi cael eu hatal am y tro oherwydd y pwysau i leddfu'r ôl-groniadau. Cafodd y drefn adolygu gan gymheiriaid ei hadfer wedyn ym mis Medi 2021.</p> <p>Cyflogwyd Radiograffydd sy'n Llunio Adroddiadau newydd gan Uned Gyflawni BIPABM yn Ysbyty Treforys (Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton) tuag at ddiwedd 2017 ac fe ysgwyddodd rôl arweiniol ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid i ganfod anghysonderau mewn adroddiadau ar ffilmiau plaen yn yr uned ar yr adeg honno. Yn dilyn y newid i'r ffiniau, fe estynnwyd y rôl hon i gynnwys llunio adroddiadau ffilmiau plaen yn y Gyfarwyddiaeth Radioleg ar draws y Bwrdd Iechyd.</p> <p>O gyfanswm yr adroddiadau a baratoir gan radiograffydd sy'n llunio adroddiadau bob wythnos, caiff 5% eu dewis i'w hadolygu gan gymheiriaid. Tîm clerigol y Gyfarwyddiaeth Radioleg sy'n paratoi'r data ar gyfer pob radiograffydd sy'n llunio adroddiadau fel bod y pwynt cyswllt unigol dynodedig yn gallu anfon yr wybodaeth ymlaen at radiograffyddion eraill i gael ei hadolygu. Caiff eu canfyddiadau eu dychwelyd at y pwynt cyswllt unigol er mwyn gallu cyfrifo cywirdeb o ran llunio adroddiadau.</p> |

| Argymhellion gwreiddiol i fynd i'r afael â hwy  | Statws <sup>2</sup> | Crynodeb o'r cynnydd   |
|---|---------------------|--|
| <p>A2 Dylai'r ddau wasanaeth radioleg amlinellu cynllun ar y cyd i bennu ffyrdd o bwysleisio'r angen i wasanaethau eraill roi gwybod iddynt am fentrau a newidiadau a fydd yn effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau radioleg.</p> | <p>Gwyrdd</p>       | <p>Yn 2017, dywedodd rheolwyr radiograffeg BIPABM wrthym nad oedd y Bwrdd Iechyd wastad yn ymgynghori â hwy ymlaen llaw ynghylch newidiadau i wasanaethau neu fentrau sy'n ymwneud â rhestrau aros a fyddai'n cynyddu nifer y cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer delweddu ac yn gosod pwysau sylweddol ar wasanaethau radioleg.</p> <p>Fe wnaeth ailalinio gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd ar ôl newid ffiniau yn 2019 arwain at sefydlu'r Gyfarwyddiaeth Radioleg ac at benodi uwch dîm rheoli newydd ar gyfer yr Isadran Gwasanaethau Cymorth Clinigol. Mae'r ffaith bod y gwasanaeth yn fwy amlwg wedi codi morâl ymhlith staff radioleg. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cysylltiol Interim ar gyfer yr Isadran Gwasanaethau Cymorth Clinigol a Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau'n sicrhau eu bod yn cynrychioli'r Gyfarwyddiaeth Radioleg mewn cyfarfodydd allweddol i drafod cyllid, strategaeth a chynllunio.</p> <p>Mae presenoldeb cynrychiolwyr radioleg mewn cyfarfodydd allweddol yn eu galluogi i gael diweddariadau cyson am newidiadau mewn meysydd eraill a allai effeithio ar y gwasanaeth, megis newidiadau i lwybrau gofal a mentrau sy'n ymwneud â rhestrau aros. Mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth i ganfod y prinderau posibl mewn capasiti o ran y gweithlu a chyfarpar ac i roi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hwy, er enghraifft trwy ddatblygu cynlluniau'r gweithlu. Dywedodd staff wrthym fod uwch reolwyr wedi bod yn hynod effeithiol o ran codi proffil y gwasanaeth radioleg o fewn y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Mae arweinwyr radioleg ar safleoedd yn cydnabod pwysigrwydd bod yn bresennol mewn cyfarfodydd rheolaidd er mwyn iddynt allu casglu gwybodaeth a sicrhau bod radioleg yn rhan o'r drafodaeth pan fo angen. Mae'r arweinwyr radioleg ar safleoedd yn mynychu nifer o gyfarfodydd rheolaidd allweddol:</p> |

| Argymhellion gwreiddiol i fynd i'r afael â hwy | Statws <sup>2</sup> | Crynodeb o'r cynnydd  |
|--|---------------------|---|
|  |                     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Grŵp Ansawdd a Diogelwch yr Isadran Gwasanaethau Cymorth Clinigol – yn fisol;</li> <li>• Bu cyfarfodydd Rheoli Arian yn digwydd yn wythnosol pan oedd y pandemig ar ei anterth;</li> <li>• Cyfarfodydd Adferiad Celloedd Diagnostig – bob pythefnos;</li> <li>• Cyfarfod amlddisgyblaethol wythnosol (e.e. radiolegwyr, llawfeddygon, radiograffyddion, nyrsys) a arweinir gan y Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd ac sy'n canolbwyntio ar faterion clinigol;</li> <li>• Adolygiad Canser - wythnosol;</li> <li>• Cabinet Clinigol – wythnosol; ac</li> <li>• Isadran Gwasanaethau Cymorth Clinigol – cyfarfod misol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar faterion rheoli.</li> </ul> <p>Mae gan y Gyfarwyddiaeth Radioleg rôl allweddol o ran hwyluso symudiad a fydd yn arwain at newid sylweddol i'r gwasanaethau a ddarperir gan y tri ysbyty aciwt yn y Bwrdd Iechyd. Ysbyty Treforys fydd y ganolfan ar gyfer gwasanaethau brys ac arbenigol, a bydd Ysbyty Singleton ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn dod yn ganolfannau ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a gwasanaethau diagnostig. Cynrychiolir y Gyfarwyddiaeth Radioleg gan y Rheolwr Gwasanaethau Radioleg, sy'n mynychu cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig, lle mae trafodaethau'n cwmpasu ystod eang o faterion gan gynnwys gweithgarwch, staffio, cyfleusterau a chyfarpar.</p> |

| Argymhellion gwreiddiol i fynd i'r afael â hwy  | Statws <sup>2</sup> | Crynodeb o'r cynnydd  |
|---|---------------------|---|
| <p>A3 Dylai'r ddau wasanaeth radioleg gofnodi cyfraddau peidio â chadw apwyntiadau cleifion allanol radioleg a'u cynnwys mewn adroddiadau ar berfformiad y gwasanaeth radioleg.</p> | <p>Gwyrdd</p>       | <p>Yn 2017, fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad nad oedd cyfraddau peidio â chadw apwyntiadau cleifion radioleg allanol yn cael eu monitro'n rheolaidd, er bod rheolwyr yn hyderus bod y cyfraddau'n debygol o fod yn isel ar gyfer y dulliau tomograffeg gyfrifiadurol (CT), (MRI), ac uwchsain (US) nad yw'n ymwneud ag obstetreg.</p> <p>Canfu ein gwaith diweddar fod y Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n rheolaidd i gyfrifo'r gyfradd peidio â chadw apwyntiadau. Y gyfradd peidio â chadw apwyntiadau yw cyfanswm y ceisiadau am apwyntiadau cleifion allanol namyn yr apwyntiadau hynny sydd wedi digwydd, sydd wedi cael eu canslo, heb eu cyflawni, ac nad ydynt wedi digwydd eto. Roedd y gyfradd peidio â chadw apwyntiad ym mis Tachwedd 2021 yn 3.6% ar draws pob un o dri safle'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith ni nid oedd cyfradd peidio â chadw apwyntiadau cleifion radioleg allanol yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau y tu hwnt i'r Gyfarwyddiaeth Radioleg. Rydym yn deall bod cyfraddau peidio â chadw apwyntiadau ar gyfer pob dull wedi cael eu hychwanegu at y data perfformiad ar gyfer y Bwrdd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio ers hynny. Rhennir y data'n fisol i godi amlygrwydd y gwasanaeth ar draws diagnosteg, swyddogaethau eraill sy'n ymwneud â gofal wedi'i gynllunio a chyda'r Bwrdd Gweithredol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt hefyd ynglŷn ag ychwanegu'r wybodaeth at ddangosfwrdd perfformiad ehangach y Bwrdd Iechyd.</p> |
| <p>A4 Dylai'r ddau wasanaeth radioleg adolygu a rhoi sylw ar y cyd i gydgyssylltu apwyntiadau radioleg mewn</p>   | <p>Ambr</p>         | <p>Yn 2017 canfuom nad oedd gan BIPABM un swyddfa archebu i gydlynu apwyntiadau radioleg ar draws y ddau wasanaeth radioleg, a oedd yn cyfyngu ar gyfleoedd i reoli rhestrau aros ar draws safleoedd i leihau amrywiadau mewn amseroedd aros. Dynododd rheolwyr ei bod yn amhosibl bod ag un system archebu</p>   |

| Argymhellion gwreiddiol i fynd i'r afael â hwy   | Statws <sup>2</sup> | Crynodeb o'r cynnydd  |
|--|---------------------|---|
| <p>arbenigaethau ac ar draws safleoedd, er mwyn helpu i ddosbarthu'r galw yn effeithiol a lleihau gwahaniaethau mewn amseroedd aros.</p> |                     | <p>pan oedd pob gwasanaeth radioleg yn gweithredu system wybodaeth wahanol ar gyfer radioleg.</p> <p>Fe wnaeth BIPABM gynllunio i roi RadIS ar waith yn Uned Gyflawni Ysbyty Treforys erbyn 1 Ebrill 2018. Byddai hyn yn golygu y byddai'r un system yn cael ei defnyddio ar y ddau safle radioleg. Fodd bynnag, bu oedi cyn rhoi'r system ar waith.</p> <p>Fe newidiodd y Bwrdd Iechyd i ddefnyddio un system RadIS ar draws ei dri phrif safle ym mis Rhagfyr 2020. Fe ddarparodd hyn y gallu i ddefnyddwyr archebu apwyntiadau ar gyfer pob un o'r tri safle, gan felly ddarparu'r cyfleuster i ddosbarthu'r galw'n effeithiol a lleihau amrywiadau mewn amseroedd aros ar draws safleoedd.</p> <p>Mae trafodaethau wedi dechrau ynglŷn â sefydlu pwyntiau archebu unigol ar gyfer pob dull a fyddai'n cynyddu effeithlonrwydd y broses archebu ymhellach ac yn darparu pwynt cyswllt canolog ar gyfer cleifion.</p> |
| <p>A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd amlinellu cynlluniau amnewid cyfalaf, a chynlluniau wrth gefn, ar</p>   | <p>Gwyrdd</p>       | <p>Yn 2017, canfuom mai dim ond 55% o'r sganwyr yn Uned Gyflawni Ysbyty Treforys a dim ond 38% o'r sganwyr yn Uned Gyflawni Ysbyty Tywysoges Cymru oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau ynghylch oes cyfarpar sganio a nodir gan Goleg Brenhinol y Radiolegwyr<sup>3</sup>. Cyfyngedig oedd y dystiolaeth a welsom o gynlluniau</p>  |

<sup>3</sup> Er enghraifft, yn 2017 dim ond un uned angiograffeg didynnu digidol oedd ar gyfer delweddu fasgwlaidd yn Ysbyty Treforys. Roedd wedi bod yn cael ei defnyddio am 14 mlynedd ac roedd hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer y rhwydwaith fasgwlaidd Canolbarth a Gorllewin Cymru.

| Argymhellion gwreiddiol i fynd i'r afael â hwy                                  | Statws <sup>2</sup> | Crynodeb o'r cynnydd  |
|---|---------------------|---|
| gyfer cyfarpar sy'n achosi risg benodol i barhad y gwasanaeth a gofal cleifion. |                     | <p>amnewid cyfalaf a chynlluniau wrth gefn cysylltiedig ar gyfer cyfarpar a oedd yn achosi risg benodol i ofal cleifion a pharhad y gwasanaeth.</p> <p>Ar hyn o bryd, tîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth Radioleg sy'n poblogi ac yn adolygu'r gofrestr risgiau radioleg. Mae risgiau newydd yn cael eu hadolygu gan Grŵp Ansawdd a Diogelwch y Gyfarwyddiaeth Radioleg cyn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Isadran Gwasanaethau Cymorth Clinigol i gael eu cymeradwyo. Mae tîm rheoli'r Isadran yn craffu ar y gofrestr risgiau radioleg bob tri mis i sicrhau ei bod yn addas ar gyfer y diben ac nad yw'r sgoriau'n rhy uchel. Lle y bo angen, caiff cofnodion risg eu diweddarau i gynnwys newidiadau i sgoriau risgiau. Ar adeg ein gwaith ni, roedd risg â sgôr uchel yn gysylltiedig â chyfarpar radioleg ar gofrestr risgiau'r Gyfarwyddiaeth Radioleg. Mae'r gallu i fuddsoddi adnoddau cyfalaf yn risg ar lefel y Bwrdd Iechyd ac mae bwriad i gynnwys cofnod ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol mewn perthynas â'r dyraniad cyllid cyfalaf cyfyngedig. Bydd y risg o ran cyfarpar yn cael ei haddasu gan ddibyynu ar yr arian sydd ar gael a'r cynigion am yr arian.</p> <p>Caiff cyfarpar a gofnodwyd fel risg ar y system Datix ei gofnodi a'i flaenoriaethu ar restr Blaenoriaethau Amnewid Cyfarpar Delweddu Mawr y Bwrdd Iechyd, a ddefnyddir i oleuo Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan a'r Cynllun Cyfalaf Dewisol. Caiff yr wybodaeth hon am risgiau ei chynnwys hefyd yn log asedau'r Bwrdd Iechyd a</p> |

Roedd sganiwr mamograffeg a oedd wedi bod yn cael ei ddefnyddio am naw mlynedd yn Ysbyty Singleton wedi'i logio fel risg uchel yng nghofrestr risgiau'r gwasanaeth radioleg, ond roedd diffyg eglurder ynghylch dyluniad y gwasanaeth yn y dyfodol yn effeithio ar y gallu i'w amnewid. Fodd bynnag, fe'i hamnewidiwyd yn 2017.

| Argymhellion gwreiddiol i fynd i'r afael â hwy   | Statws <sup>2</sup> | Crynodeb o'r cynnydd  |
|--|---------------------|---|
|  |                     | <p>gynhelir gan y Tîm Caffael Cyfalaf. Mae cynllunio manwl ar gyfer amnewid cyfarpar yn rhan o ddatblygu achosion busnes.</p> <p>Caiff cynlluniau wrth gefn eu hymgorffori mewn Gweithdrefnau Gweithredu Safonol sy'n nodi beth i'w wneud os bydd cyfarpar yn methu ac yn ystod amser segur rheolaidd gwasanaethau. Mae Polisi Parhad Busnes y Bwrdd Iechyd yn nodi gweithdrefnau os ceir argyfyngau megis tân neu lifogydd.</p>  |
| <p>A6 Dylai'r ddau wasanaeth radioleg edrych ar y cyd ar y costau a'r buddion o gynyddu'r oriau sganio yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau ac, os yw'n briodol, datblygu achos busnes dros gynyddu oriau sganio..</p> | <p>Gwyrdd</p>       | <p>Yn 2017, roedd y data diweddaraf a oedd ar gael ar gyfer BIPABM yn dangos, ar gyfartaledd, bod sganwyr yn cael eu gweithredu am rhwng saith a deg awr ar ddiwrnodau yn ystod yr wythnos, ond am gyfnodau llai o lawer ar benwythnosau.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae capasiti a galw'n cael eu monitro'n barhaus fel y gellir optimeiddio cynlluniau gwaith beunyddiol. Er enghraifft, dywedwyd fod sganiau brys ar gyfer achosion tybiedig o ganser yn cael eu cyflawni o fewn deng niwrnod calendr gyda dim ond ychydig bach o darfu ar waith rheolaidd.</p> <p>Mae'r Cynllun Gwasanaethau Radioleg (Gorffennaf 2021) yn nodi trefniadau'r cynllun yn benodol ar gyfer gwasanaethau CT ac MRI yn 2021-22 a 2022-23, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• llinell sylfaen sy'n seiliedig ar berfformiad cyfredol o ran mynediad;</li> <li>• effaith net aillbennu cydbwysedd diagnosteg cleifion allanol o Ysbyty Treforys i Ysbyty Singleton ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot;</li> </ul> |



| Argymhellion gwreiddiol i fynd i'r afael â hwy | Statws <sup>2</sup> | Crynodeb o'r cynnydd  |
|--|---------------------|---|
|  |                     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynllun galw a chapasiti ar gyfer gwasanaethau CT ac MRI er mwyn iddynt allu cyrraedd targedau ac ymateb i alwadau cynyddol ar y gwasanaeth;</li> <li>• y gweithlu sy'n ofynnol i estyn capasiti sganwyr mewdol y bwrdd iechyd ar gyfer CT ac MRI;</li> <li>• opsiynau byrdymor ar gyfer ehangu capasiti CT ac MRI, gan gynnwys meintioli'r capasiti ychwanegol o ran llunio adroddiadau sy'n ofynnol; a</li> <li>• diweddariad ar opsiynau posibl sy'n cael eu harchwilio fel llwybr i roi cymorth i amnewid un o'r ddau sganiwr CT yn Ysbyty Treforys; ac ar gyfer sganiwr MRI ychwanegol yn Ysbyty Treforys.</li> </ul> <p>Cafodd y cyllid a nodwyd o fewn y cynllun ar gyfer ei roi ar waith ei gytuno a bydd yn cael ei ddyrannu mewn dau gam. Darperir yr haen gyntaf i gyflawni lefelau gweithgarwch cytunedig ar gyfer gwasanaeth pum niwrnod a bydd ar gael o 1 Chwefror 2022. Bydd argaeledd yr ail haen lawn o gyllid i gyflawni trefn weithio saith niwrnod yn dibynnu ar lwyddiant i recriwtio hyfforddeion radiograffeg trwy'r dull recriwtio symlach cenedlaethol newydd yn ystod haf 2022. Mae'r broses o recriwtio staff MRI ar gyfer trefn weithio saith niwrnod yn mynd rhagddi ac mae cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sganio CT ac uwchsain dros saith diwrnod yn eu lle.</p> <p>Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Cysylltiol Interim, Gwasanaethau Cymorth Clinigol, a'r Rheolwr Gwasanaethau Radioleg yn darparu adroddiadau misol manwl ar berfformiad o ran cyrraedd targedau a charreg filltir y Cynllun Blynnyddol Radioleg.</p> |

| Argymhellion gwreiddiol i fynd i'r afael â hwy   | Statws <sup>2</sup> | Crynodeb o'r cynnydd   |
|--|---------------------|--|
| <p>A7 Dylai'r ddau wasanaeth radioleg sefydlu cynllun strategol radioleg ar y cyd, erbyn canol 2017, er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos eu sefyllfa bresennol o ran galw, capasiti a'r adnoddau sydd ar gael;</li> <li>• amlinellu barn ar y cyd am y sefyllfa y mae angen iddynt ei chyrraedd;</li> <li>• pennu sut y byddant yn cydweithio i gyrraedd eu nodau cyffredin; a</li> <li>• chyfrannu at ddatblygu cynlluniau gweithredol blynyddol.</li> </ul> | <p>Ambr</p>         | <p>Yn 2017, canfuom fod gan BIPABM Gynllun Tymor Canolig Integredig ar wahân ar gyfer y naill a'r llall o'i dwy uned gyflawni. Roeddent yn gwasanaethu fel dogfennau strategaeth ar gyfer y priod wasanaethau radioleg ond roeddent bron â bod yn gwbl wahanol o ran eu cynnwys. Nid oedd unrhyw drosolwg strategol ar gyfer gwasanaethau radioleg ar draws y sefydliad.</p> <p>Fe arweiniodd y newid i'r ffiniau ym mis Ebrill 2019 at sefydlu un gwasanaeth ar ffurf Cyfarwyddiaeth Radioleg ac un strwythur rheoli. Fe baratôdd y ffordd ar gyfer dull cyson ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan o ran cynllunio strategol a gweithredol ar gyfer y gwasanaeth radioleg.</p> <p>Mae'r crynodeb o gynnydd ar gyfer <b>Argymhelliad 6</b> yn nodi sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn pennu'r galw a'r capasiti ar gyfer gwasanaethau CT ac MRI yn y tymor byr a hwy.</p> <p>Mae'r Gyfarwyddiaeth Radioleg yn cyfrannu at ddatblygu Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Cynllun Cryno Gofal wedi'i Gynllunio 2021-22 (rhan o Gynllun Blynyddol 2021-22) yn cyfeirio at wasanaethau radioleg, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhoi'r cynllun adfer endosgopi ar waith;</li> <li>• cadarnhau gofynion o ran gwasanaeth ar gyfer symud yr holl gleifion meddygol aciwt i Ysbyty Treforys; a</li> <li>• dadansoddiad o'r capasiti a galw parhaus mewn CT, MRI ac uwchsain nad yw'n ymwneud ag obstetreg.</li> </ul> <p>Mae'r Cynllun Gwasanaethau Radioleg (Gorffennaf 2021) yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau CT ac MRI. Nid yw'n cynnwys pob maes arall fel delweddu</p> |

| Argymhellion gwreiddiol i fynd i'r afael â hwy  | Statws <sup>2</sup> | Crynodeb o'r cynnydd  |
|---|---------------------|---|
|   |                     | ffilmiau plaen na radioleg ymyriadol, felly nid yw'n gynllun cwbl gynhwysfawr ar gyfer y gwasanaeth.  |
| A8 Dylai'r ddau wasanaeth radioleg bennu cynlluniau ariannol clir a fydd yn cyfrannu i'w cynlluniau gweithredol blynyddol.. | Ambr                | <p>Yn 2017, canfuom nad oedd gan wasanaethau radioleg BIPABM gynlluniau gweithredol, cynlluniau ariannol a chynlluniau gweithlu blynyddol.</p> <p>Ar adeg ein gwaith maes ar gyfer yr adolygiad dilynol hwn nid oedd cynllun ariannol penodol ar gyfer radioleg. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod cyllid y cytunwyd arno ar gyfer y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2021-22 yn seiliedig ar lefelau gweithgarwch a gyflawnwyd ym mlwyddyn ariannol 2019-20, ac y bydd yn ddibynnol ar weithgarwch.</p> <p>Adroddir ar sefyllfa ariannol radioleg mewn cyfarfodydd cyfarwyddiaeth misol. Pan eir y tu hwnt i gyllideb, cynhelir dadansoddiad sy'n mynd at wraidd y mater i ganfod yr achos. Er bod un gyllideb ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Radioleg, mae gan bob safle ei god costau ei hun.</p> <p>Caiff eitemau cyfalaf mawr eu logio yn y cynllun amnewid cyfalaf fel eitem Cyfarwyddiaeth Radioleg gyda dynodwr safle, yn wahanol i'r system flaenorol lle adroddid arnynt fel eitem safle gyda dynodwr gwasanaeth radioleg.</p> |
| A9 Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud trefniadau, erbyn canol   | Gwyrdd              | Yn 2017, roedd gan BIPABM ddau wasanaeth radioleg ar wahân â strwythurau rheoli gwahanol. Roedd arweinyddiaeth weithredol yn cael ei darparu gan y  |

| Argymhellion gwreiddiol i fynd i'r afael â hwy  | Statws <sup>2</sup> | Crynodeb o'r cynnydd   |
|---|---------------------|--|
| <p>2017, i sicrhau trosolwg strategol gan gyfarwyddwyr ar radioleg ar draws y Bwrdd lechyd, a ddylai fod yn ychwanegol i'r trosolwg presennol ar wasanaethau radioleg ar wahân.</p> |                     | <p>Cyfarwyddwr Meddygol ar gyfer staff meddygol, y Cyfarwyddwr Interim Therapiau a Gwyddor lechyd ar gyfer radiograffyddion, a chan y Prif Swyddog Gweithredu ar gyfer cyflawni gweithredol. Roedd gwahanu strwythurau rheoli ac arweinyddiaeth weithredol yn cyfyngu ar y potensial i sicrhau ffocws strategol ar draws y Bwrdd lechyd cyfan ar wasanaethau radioleg.</p> <p>Cododd cyfle ar gyfer newid sylweddol gyda'r newid i'r ffiniau ym mis Ebrill 2019. Fe wnaeth sefydlu un Gyfarwyddiaeth Radioleg hi'n bosibl cyflwyno strwythur rheoli unedig. Hyd at fis Mawrth 2021, y Prif Swyddog Gweithredu oedd yr Arweinydd Gweithredol ar gyfer gwasanaethau radioleg. O fis Ebrill 2021, fe drosglwyddodd y cyfrifoldeb hwn i'r Cyfarwyddwr Therapiau.</p> |
| <p>A10 Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau cynrychiolaeth glir i wasanaethau radioleg ar ei brif bwyllgorau a grwpiau, erbyn canol 2017.</p>   | <p>Ambr</p>         | <p>Er bod staff wedi dweud wrthym bod proffil gwasanaethau radioleg wedi cynyddu o fewn y Bwrdd lechyd, nid yw'r materion cysylltiedig yn cael eu trafod rhyw lawer yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau allweddol.</p>  |



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500  
Ffacs: 029 2032 0600  
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.